**Dyddiad:** **Dydd Mercher 27 Mehefin 2002**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Teitl:** **Y cyfleuster Diogelwch i Bobl Ifanc, Carchar Ei Mawrhydi, Parc, Pen-y-bont ar Ogwr**

## Diben

1. Galluogi aelodau'r Pwyllgor i nodi'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau iechyd i bobl ifanc yng Ngharchar Ei Mawrhydi, Parc.

## Cefndir

2. Carchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifanc (YOI) Parc oedd y carchar cyntaf i gael ei adeiladu yn y DU o dan Fenter Cyllid Preifat (PFI) y Llywodraeth. Chwaraeodd Gwasanaethau Carcharol Securicor ran amlwg yn y gwaith o ddatblygu'r prosiect arloesol hwn ac mae ganddo gontract gweithredu 25 mlynedd i reoli'r carchar ar ran Gwasanaeth Carcharau Ei Mawrhydi.

3. Sefydlwyd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid o dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Warner o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 ac yn Ebrill 2000 fe'i gwnaed yn gyfrifol am gomisiynu a phrynu'r holl leoedd i bobl 10–17 oed sydd yn y ddalfa yng Nghymru a Lloegr.

4. Ym Mawrth 2002, agorwyd cyfleuster ieuenctid ar wahân a chanddo 28 gwely yng Ngharchar Ei Mawrhydi, Parc. Mae'r uned yn derbyn bechgyn 15 – 17 sydd wedi'u remandio, a fyddai wedi cael eu hanfon gynt i Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ashfield, ger Bryste neu gyfleusterau eraill megis Carchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Medway yng Nghaint. Mae gan Swyddfa Ranbarthol Cymru y Gwasanaeth Carcharau nod strategol o ddychwelyd carcharwyr gwryw sy'n o Gymru yng Nghymru. Nid oes unrhyw gyfleusterau o'r fath ar hyn o bryd i ferched ifanc yng Nghymru.

5. Mae gan Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg gontract â Securicor ar gyfer darparu gofal iechyd i Garchar Ei Mawrhydi, Parc. Cyflogir yr holl staff clinigol gan yr Ymddiriedolaeth ac maent yn cydweithio'n agos â staff dalfa'r carchar wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd. Darperir gwasanaethau sylfaenol a rhai gwasanaethau eilaidd i bobl ifanc yn fewnol yn uned gofal iechyd y carchar.

6. Darperir gwasanaethau arbenigol yn ôl yr angen. Os oes angen y lefel hon o ofal ac os na ellir ei

darparu o fewn y carchar, caiff y cleifion eu hatgyfeirio at y gwasanaethau iechyd lleol ac fe'u hebryngir yno er mwyn cael mynediad iddynt.

7. Mae yna nifer o wasanaethau gofal iechyd ar gael a'r rhain i gyd yn amrywio o'r math o wasanaeth gofal sylfaenol y byddech yn ei ddisgwyl gan Ymarferwr Cyffredinol i'r gofal arbenigol i gleifion allanol a chleifion mewnol. Adeg eu derbyn mae carcharorion yn cael llyfryn gwybodaeth i gleifion sy'n rhoi manylion y gwasanaethau sydd ar gael, sut i gael mynediad iddynt a sut i roi gweithdrefn gwynion yr ymddiriedolaeth ar waith.

**Y Sefyllfa Bresennol**

8. Ar 20 Mai ymwelais â Charchar Parc lle cefais gyfle i siarad â Phenaethiaid yr Uned Ieuenctid a'r Uned Gofal Iechyd, amryw o swyddogion carchar a detholiad o'r carcharorion. Cododd y Llywodraethwr, Mr Roy Woolford, ei bryderon ynghylch agweddau ar y problemau iechyd presennol sy'n wynebu'r carchar.

9. Nid oes unrhyw gyfleusterau ar wahân ar gyfer gofal cleifion mewnol i bobl ifanc sy'n bresennol yn y Parc. Maent naill ai'n cael eu hanfon i Ashfield am driniaeth, neu'n derbyn gofal yn uned y carchar sy'n cael ei rannu â'r boblogaeth o oedolion yn y carchar. Mae'n amlwg nad yw'r ddau ddewis yn ddelfrydol.

10. Yn ystod y misoedd diweddar yr oedd y carchar wedi wynebu anawsterau wrth anfon pobl ifanc yr oedd arnynt angen gofal fel cleifion mewnol i Ashfield am driniaeth. Yr oedd gwahaniaethau barn feddygol wedi bod gydag Ashfield yn tueddu i ddadlau a oedd gofal cleifion mewnol yn briodol mewn gwirionedd.

11. Mae rheolwyr y Parc wrthi'n gweithio ar gynnig i ddatblygu Uned Goruchwylio Dwys â 10-11 o leoedd a fyddai'n darparu ar gyfer cleifion mewnol a phobl ifanc hawdd eu niweidio. Dylai manylion terfynol y cynnig gael eu penderfynu cyn hir cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Os caiff ei dderbyn amcangyfrifir mai 4-6 mis fydd yr amser arwain. Mae unrhyw benderfyniad yn debygol o ddibynnu ar allu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i nodi'r adnoddau ariannol angenrheidiol. Fe allai hyn ddibynnu ar geisiadau o dan yr adolygiad o wariant eleni.

12. Yr wyf o blaid Uned Goruchwylio Dwys ac yr wyf wedi hysbysu Cyfarwyddwr y Carchar a phennaeth Bwrdd yr Ymwelwyr y gellid crybwyll fy nghefnogaeth yn ystod trafodaethau yn y dyfodol. Yr wyf yn bwriadu ysgrifennu at yr Arglwydd Warner yn amlinellu fy nghefnogaeth i'r cynnig.

13. Yr wyf y bryderus hefyd fod cynigion i leoli Canolfan Hyfforddi Diogel newydd â 60 o welyau yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr wedi methu. Yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion gysylltu â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i gael y rhesymau manwl y tu ôl i'r penderfyniad hwn.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl Fforensig Plant a Phobl Ifanc**

14. Pan gyhoeddais y Strategaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, *'Busnes Pawb'* y llynedd, derbyniais fod angen datblygu gwasanaeth iechyd fforensig aml-ddisgyblaeth integredig i blant a phobl ifanc. Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru gydweithio'n agos â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn dod o hyd i atebion i lenwi'r bylchau yn y gwasanaeth. Fel y gwyddoch fe sefydlais Grwp Gweithredu i sicrhau bod Strategaeth CAMHS yn cael ei gweithredu ledled Cymru.

15. Dylid datblygu'r gwasanaeth fel partneriaeth rhwng yr awdurdodau lleol, adrannau'r gwasanaethau cymdeithasol a'r GIG yng Nghymru. Y dymuniad yw gweld ystod gydlynus o wasanaethau hygyrch yn cael eu datblygu fel haen 1 i bobl ifanc y mae eu hymddygiad yn destun pryder. Rhaid i anghenion plant ddod yn gyntaf.

**Camau ar gyfer y Pwyllgor**

16. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r papur.

**Jane Hutt**
**Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**